



Ff:01495201778

Pecyn Croeso i Arweinwyr

Nod y pecyn hwn yw i ddarparu'r holl wybodaeth sylfaenol sydd ei angen arnoch ar gyfer eich taith i Ynys Hywel.

Rydym yn annog pob arweinydd a chyfranogwr sydd â gofynion penodol i ymweld â'n canolfan cyn eu arhosiad er mwyn ymglyfarwyddo eu hunain â'r drefn a thrafod eu gofynion penodol. Bydd cyfleoedd rheolaidd i arweinwyr gysylltu â staff y ganolfan i drafod ac adolygu eu gofynion.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, neu os hoffech wybodaeth benodol sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd o'ch arhosiad, cysylltwch â ni yn uniongyrchol i drafod eich gofynion neu i drefnu ymweliad â'r safle. Am fwy o wybodaeth neu i drefnu eich ymweliad cysylltwch â ni ar 01495 201778.

Rolau a Chyfrifoldebau

Yn ystod eich arhosiad, byddwn yn darparu cefnogaeth a chymorth lle bo modd; gan gynnwys darparu system ar alwad brys sy'n gweithredu 24 awr y dydd.

Fodd bynnag, mae arweinwyr y grŵp yn gyfrifol am sicrhau safon uchel o ymddygiad o fewn eu grwpiau a'r holl bobl ifanc.

Rhaid i bob grŵp gael ei hebrwng gan arweinwyr profiadol, addas, sy'n oedolion gyda chymhareb o **1:10 ar gyfer llety ac 1:8 ar gyfer gweithgareddau**. Rydym hefyd yn argymhell bod o leiaf ddau aelod o staff i bob grŵp dros nos i leihau materion diogelwch. Yn ddelfrydol, 1 gwryw a 1 benyw.

In loco parentis, arweinydd y grŵp sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl rieni wedi eu hysbysu ymlaen llaw am y gweithgareddau y bydd unrhyw un o dan 18oed yn cymryd rhan ynddynt, gan gynnwys y risgiau cysylltiedig. Cymerir y ffurflen caniatâd meddygol wedi'i llofnodi fel cadarnhad o hyn. Bydd arweinwyr y grŵp hefyd yn gyfrifol am hysbysu rhieni o unrhyw ddamweiniau, anafiadau neu ymddygiadau anaddas yn ystod eu arhosiad.

Bydd hyfforddwyr Ynys Hywel yn sicrhau bod pob gweithgarwch dan arweiniad yn cael ei gynnal mewn amgylchedd dysgu diogel a byddant yn cymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch y cyfranogwr tra ar sesiwn, ond bydd angen i arweinwyr grŵp gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad o hyd.

Bydd gofyn i bob cyfranogwr gymryd cyfrifoldeb am eu canlyniadau dysgu eu hunain a'u diogelwch personol eu hunain gan gadw at y rheolau diogelwch a ddarperir ar gyfer pob gweithgaredd a pheidio ag ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol fel defnyddio iaith fygythiol neu sarhaus, neu fwlio.

Opsiynau Tywydd Gwael

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn digwydd boed law neu hindda felly paratowch ar gyfer hynna. Os bydd angen inni ganslo eich sesiwn oherwydd tywydd garw, byddwn bob amser yn ymdrechu i ail-drefnu'r sesiwn ar adeg arall yn ystod eich arhosiad sy'n gyfleus i'r ddau barti. Lle nad yw hyn yn bosibl, gellir cynnig sesiwn dan do neu bydd gan westeion hawl i ad-daliad llawn am gost y sesiwn honno.

Lle mae pris pecyn wedi'i ddarparu, byddwn bob amser yn cynnig ein sesiwn amgen gorau, ond ni fydd unrhyw ad-daliad ar gael.

I'ch cynorthwyo yn ystod eich ymweliad, rydym yn cynnig y cyfleusterau canlynol ar y safle:

Gwesteion y Prif Dŷ

- Mannau cwrdd/ystafelloedd dosbarth
- Cyfleusterau gwneud te a choffi
- Prydau fel y'i nodwyd ar y ffurflen archebu
- Cacennau cartref a byrbrydau
- Yr holl ddillad gwely
- Lolfa dan do gyda lle tân, gemau a llyfrau
- Safle tân gwerysll

Am fwy o wybodaeth ynghylch unrhyw un o'r cyfleusterau hyn, cysylltwch â ni ar 01495 201778.

Darperir y rhan fwyaf o'r rhain yn ddi-dâl, ceir tâl bach ychwanegol ar gyfer rhai cyfleusterau penodol.

Rhestr Cit Awgrymedig

Bydd Ynys Hywel yn darparu unrhyw gyfarpar arbenigol sydd ei angen ar gyfer gweithgareddau, ond er mwyn sicrhau eich bod yn gallu mwynhau pob gweithgaredd gymaint â phosibl, PaciWch dDillad ac esgidiau sy'n addas ar gyfer yr amser o'r flwyddyn a'r gweithgareddau.

Ar gyfer taith breswyl safonol byddem yn awgrymu'r canlynol:

- Côt awyr agored addas h.y. un gynnes sy'n dal dŵr
- Esgidiau awyr agored
- Esgidiau eraill ar gyfer gwisgo dan do, i'w defnyddio yn y gegin (nid i'w defnyddio y tu allan, yn gallu gwrthsefyll llithro a hylif wedi ei sarnu yn ddelfrydol)
- Hen ysgidiau ymarfer - hanfodol ar gyfer unrhyw weithgareddau chwaraeon dŵr
- Siwperi cynnes - dillad cnu thermol yn dda gan eu bod yn gynnes ac yn sychu'n gyflym
- Dewis o dopiau llawes hir a byr (thermals yn dda ar gyfer y gaeaf)
- Sawl pâr o drowsus cyfforddus (yn ddelfrydol, dim jîns)
- Dillad hamdden ar gyfer y nos
- Dillad nos gan gynnwys pâr o lapanau ar gyfer cysur ychwanegol
- Dillad isaf
- Sanau – ni allwch fyth gael gormod o sanau, argymhellir sanau cerdded da iawn
- Het, menyg a sgarff gwlanog
- Eitemau ymolchi (gan gynnwys llieiniau, sebon, brwsh a phast dannedd, brwsh gwallt, siampŵ ac ati, ac unrhyw feddyginiaethau presgripsiwn)
- Eli haul

I gael y mwyaf allan o'ch profiad yn Ynys Hywel, bydd arnoch angen dillad addas, felly dewch â digon o hen dDillad cynnes sy'n addas i'w trochi.

Eitemau Gwerthfawr

Nid yw ACT Awyr Agored yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw eitemau gwerthfawr gaiff eu cludo i'r safle. Rydym yn argymhell eich bod yn eu gadael adref.

Rhestr Wirio er mwyn Paratoi

Unwaith y byddwch wedi trefnu eich ymweliad, efallai y bydd angen i chi gwblhau rhai neu bob un o'r eitemau canlynol ar y rhestr wirio. Os ydych yn ansicr pa eitemau a allai fod yn gymwys i chi, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich trip, cysylltwch â ni.

O leiaf 6 wythnos cyn eich ymweliad

Beth	Wedi ei gwblhau
A ydych wedi cadarnhau dyddiadau, amseroedd a thaliad yr archeb.	
A ydych wedi dewis a bwcio'r holl weithgareddau ar gyfer eich grŵp.	
A ydych wedi dewis a bwcio pob pryd fydd ei angen ar eich grŵp.	
A yw'r grŵp wedi cwblhau a dychwelyd yr holl ffurflenni meddygol a chaniatâd rhieni.	
A ydych wedi darparu rhestr i'ch grŵp o'r hyn fydd angen iddynt ddod â nhw.	
A oes gan eich grŵp unrhyw ofynion arbennig ac os felly, a ydych wedi cysylltu â staff Ynys Hywel er mwyn eu trafod.	
A ydych wedi trefnu trafnidiaeth i Ynys Hywel ac oddi yno.	